# Tribiwnlys Addysg Cymru
# Adroddiad Blynyddol
# 2021 – 2022

Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 1 |
| **Adran 1** | Amdanom ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Ein Cwsmeriaid | 25 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 26 |
| **Adran 5** | Gwariant | 27 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47373, ISBN digidol 978-1-80535-758-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Dyma fy 19eg Adroddiad Blynyddol i'r Tribiwnlys, a'm Hadroddiad Blynyddol cyntaf fel Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru, sydd bellach wedi'i ailenwi. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022.

Rydym wedi parhau i gynnal gwrandawiadau rhithiol, a chafwyd 62 ohonynt yn ystod y cyfnod hwn. Er nad ydym wedi mynd yn ôl i gynnal gwrandawiadau llafar yn llawn eto, cawsom wrandawiad wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod adrodd hwn, oherwydd cais penodol gan yr Apelydd. Roeddem wedi gallu trefnu'r gwrandawiad mewn ffordd fel bod pob parti'n teimlo'n gyfforddus, a dros y misoedd nesaf rwy'n bwriadu symud ymlaen i gynnal gwrandawiadau llafar ar gyfer ein hachosion mwy cymhleth. Byddwn yn parhau i glywed achosion o bell ac i gynnal gwrandawiadau rhithiol ar gyfer cyfarwyddiadau rheoli yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Fel imi adrodd y llynedd, mae'r gwrandawiadau rhithiol wedi gweithio'n dda, a llawer o'n cyfranogwyr, yn enwedig rhai achwynwyr personol, yn ffafrio'r math hwn o wrandawiad.

Hefyd, mae nifer fach o achosion wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn a gafodd eu gwneud drwy hawl y person ifanc ei hunan. Yn sgil estyn yr ystod oedran i hyd at 25 oed ar gyfer pobl ifanc sy'n gallu gwneud apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys, rydym yn rhagweld bod hyn yn duedd sy'n debygol o gynyddu yn y dyfodol.

Unwaith eto, bu'n anodd darparu hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn. Ond rwy wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i barhau i hyfforddi ein haelodau. Er bod cynnal sesiynau hyfforddi rhithiol yn gallu bod yn anodd iawn i grŵp mawr o gyfranogwyr, nid oeddwn o'r farn y dylem oedi'r hyfforddiant hyd nes y gallem i gyd gwrdd wyneb yn wyneb – yn enwedig o ystyried y gorchymyn cychwyn ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a ddechreuodd ym mis Medi 2021. O ganlyniad, cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi ym mis Tachwedd 2021 ar ein Rheoliadau newydd, y Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, a chyflwyniadau ar oblygiadau'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Addysg Bellach a gwrandawiadau. Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi pellach ar dystiolaeth arbenigol mewn gwrandawiadau, y ddarpariaeth gofal iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru, ac anhwylderau datblygu iaith. Cafodd yr hyfforddiant ei groesawu a chafwyd trafodaethau bywiog ar bob pwnc.

Er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw gynnydd yn ein llwyth gwaith yn sgil y ddeddfwriaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, penodwyd tri Chadeirydd newydd ym mis Awst 2022. Estynnwn groeso cynnes iawn i'n Cadeiryddion newydd ac yn dymuno'r gorau iddynt yn eu gyrfaoedd yn y Tribiwnlys. Ac wrth sôn am gyfansoddiad y Tribiwnlys, yn anffodus ymddiswyddodd ein Cadeirydd Dylan Jones ym mis Mawrth 2022. Er ein bod yn drist i'w weld yn mynd, cawsom reswm hefyd i'w longyfarch ar ei benodiad fel Barnwr Rhanbarth llawn amser yn eistedd yng Ngogledd Cymru. Diolchwn iddo am ei gyfraniad i'r Tribiwnlys. Rhaid imi hefyd roi gwybod am ymddeoliad Gwyn Griffiths ym mis Mai 2022, un o'n haelodau arbenigol sydd wedi gwasanaethu i'r Tribiwnlys am y cyfnod hiraf. Bydd Gwyn Griffiths yn adnabyddus iawn i nifer ohonoch, gan ei fod wedi gwasanaethu i'r Tribiwnlys ers ei sefydlu yn 2003, a byddwn yn gweld eisiau'n ddirfawr ei wybodaeth, ei arbenigedd a'i angerdd dros anghenion dysgu ychwanegol. Mae pawb yn y Tribiwnlys yn dymuno ymddeoliad hapus iawn iddo.

Cafwyd 21 hawliad sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod hawliadau anabledd yn parhau i gynrychioli cyfran fach o'n gwaith, maent yn cynyddu'n raddol.

Nid ydym yn gwybod eto sut y bydd effaith y ddeddfwriaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithio ar y Tribiwnlys, ond rydym wedi ceisio paratoi drwy gynnal hyfforddiant a sicrhau bod gennym adnodd ychwanegol i wrando ar achosion. Bydd yn rhaid inni, fel pob ymarferydd a phawb arall sy'n defnyddio'r Tribiwnlys, ymdopi â system ddeuol am gryn amser wrth i'r system newydd gael ei chyflwyno'n raddol. Mae tabl wedi'i lunio sy'n dangos gwahanol ddyddiadau'r gorchmynion cychwyn, ac roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhannu hwnnw gyda chi yma yn yr adroddiad hwn. Felly, rwy wedi ychwanegu tabl 'Gorchmynion Cychwyn Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021-2022' ar ôl y rhagair hwn, ac yn gobeithio eich bod yn ei chael yn ddefnyddiol. Bydd y tabl hefyd ar gael ar ein gwefan, ond dylwn atgoffa ein defnyddwyr mai honno yw'r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd gan Lywodraeth Cymru fwy o ddiwygiadau yn y dyfodol a fydd yn newid y tabl. Hoffwn hefyd atgoffa Apelyddion fod ffurflenni gwahanol i'w llenwi, yn dibynnu a ydych chi'n dod â hawliad gerbron y Tribiwnlys o dan y system Anghenion Addysgol Arbennig neu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol ai peidio. Mae manylion pellach am hyn ar ein gwefan.

Rydym yn dal i fod yn rheoli achosion mwy cymhleth, a dros y deuddeg mis diwethaf rydym wedi sylweddoli bod angen i ganran fawr iawn ohonynt bellach gael eu rheoli'n ofalus er mwyn osgoi gohirio gwrandawiadau. Yn gyffredinol, cynhelir y sesiynau rheoli achosion hyn dros y ffôn neu'n rhithiol. Rydym hefyd wedi canfod bod mwy nag un sesiwn rheoli achosion wedi gorfod cael ei chynnal mewn sawl achos, sy'n rhoi rhyw fath o syniad o gymhlethdodau cynyddol yr achosion yr ydym yn delio â nhw.

Wrth ddelio â Rheoli Achosion, hoffwn atgoffa ein defnyddwyr o'r Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n ymwneud â bwndeli'r Tribiwnlys ar gyfer gwrandawiadau. Fel y gwyddoch, cafodd y Cyfarwyddyd Ymarfer ei gyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2021. Yn sgil y trefniadau newydd mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd bellach ar waith, mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys achosion Anghenion Dysgu Ychwanegol ac enw newydd y Tribiwnlys.

Rydym hefyd wedi cynnal dau gyfarfod rhithiol ar gyfer y grŵp defnyddwyr yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac roedd y rhain yn boblogaidd iawn. Rwy'n gobeithio y gallwn fynd yn ôl i gyfarfodydd wyneb yn wyneb dros y deuddeg mis nesaf, ond rwy'n gwerthfawrogi y gallai fod yn well gan rai defnyddwyr fynychu'n rhithiol o hyd, yn hytrach na theithio. Byddwn yn sicr yn darparu ar gyfer bodloni anghenion o'r fath.

Mae'n fraint imi gael swydd Llywydd y Tribiwnlys ers ei sefydlu yn 2003. Byddaf yn ymddeol o'r swydd y flwyddyn nesaf, ac felly hwn fydd fy adroddiad blynyddol olaf. Rwy wedi cael y pleser o gyfuno fy niddordeb mewn addysg â'm hyfforddiant cyfreithiol, ac felly i bob pwrpas mae'r rôl wedi rhoi'r gorau o'r ddau fyd i mi. Yn ystod fy nghyfnod fel Llywydd, rwy bob amser wedi cael cefnogaeth gyson a hael y Cadeiryddion, yr aelodau arbenigol ac Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys. Heb eu gwaith caled, eu teyrngarwch a'u hymrwymiad i'r Tribiwnlys, byddai fy rôl wedi bod yn llawer anoddach. Rwy'n estyn fy niolch i bob un ohonynt, a bydd pwy bynnag a benodir i'm swydd fel Llywydd yn hynod o lwcus i gael gweithio gyda charfan o bobl mor brofiadol a gwybodus. Rwy'n gobeithio y bydd fy olynydd yn cael yr un faint o fwynhad a boddhad o'r gwaith ag yr wyf i wedi'u cael, ac rwy'n dymuno pob llwyddiant i'r sawl a benodir yn ei rôl newydd.

**Rhiannon Walker**
Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Cymru

# Gorchmynion Cychwyn Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021-2022

| Grŵp 1 | Plant sy'n newydd i'r system |
|---|---|
| Medi 2021 & 01 Ionawr 2022 | • Dechreuodd y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar 1 Medi 2021 ar gyfer plant hyd at ac yn cynnwys blwyddyn 10 sydd newydd eu cofnodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy **Orchymyn Cychwyn 2**.<br>• Bydd plant hyd at ac yn cynnwys blwyddyn 10 sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig ar 1 Medi 2021, a'r ddarpariaeth honno yn dod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2021, yn cael eu darparu ar eu cyfer drwy **Orchymyn Cychwyn 7** ar 1 Ionawr 2022. |
| **Grŵp 2** | **Plant a gedwir yn gaeth** |
| Medi 2021 | • Dechreuodd y darpariaethau ADY mewn perthynas â phlant a gedwir yn gaeth ar 1 Medi 2021 ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol a gedwir yn gaeth, neu ar gyfer plant a gedwir yn gaeth ar ôl 1 Medi 2021.<br>Darperir ar gyfer y trefniadau i blant a gedwir yn gaeth mewn llety ieuenctid drwy **Orchymyn Cychwyn 2** ac mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer plant a gedwir yn gaeth o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. |
| **Grŵp 3** | **Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac nad ydynt yn derbyn gofal nac yn mynychu mwy nag un lleoliad** |
| Ionawr 2022 | • Bydd plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn 2021-22 yn symud i'r system ADY rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2022: Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.<br>• Bydd unrhyw blentyn yn y grŵp hwn sydd heb symud i'r system ADY erbyn 31 Awst 2022 yn symud yn awtomatig ar ôl y dyddiad hwnnw.<br>Darperir ar gyfer y trefniadau i blant sydd yng ngrŵp 3 drwy **Orchymyn Cychwyn 5**. |
| **Grŵp 4** | **Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac sy'n derbyn gofal neu sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad** |
| Ionawr 2022 | • Bydd plant yn un o'r blynyddoedd mandadol canlynol ym mlwyddyn academaidd 2021-22 yn symud i'r system ADY rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2022: Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.<br>• Bydd unrhyw blentyn yn y grŵp hwn sydd heb symud i'r system ADY erbyn 31 Awst 2022 yn symud yn awtomatig ar ôl y dyddiad hwnnw.<br>Darperir ar gyfer y trefniadau i blant sydd yng ngrŵp 4 drwy **Orchymyn Cychwyn 6**.[1] |

1 Roedd y wybodaeth yn y Tabl Gorchmynion Cychwyn yn gywir ym mis Awst 2022.

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon, ein:

- Sail TAC
- Swyddogaeth TAC
- Rheoliadau TAC 2021
- Proses TAC
- Aelodau TAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAAAC
- Defnyddio TAAAC

## Sail TAC

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Cafodd TAAAC ei ailenwi yn Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC) dan Adran 91 o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae TAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAC a'i gefnogaeth weinyddol.

## Swyddogaeth TAC

Mae TAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhieni, plant a phobl ifanc sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r awdurdod lleol (ALl) neu'r Sefydliad Addysg Bellach wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn neu berson ifanc. Mae TAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.

## Rheoliadau TAC 2021

Mae TAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan TAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

## Proses TAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAC lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TAC.

Mewn gwrandawiad TAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd, neu o bell drwy Wrandawiad Rhithiol.

## Aelodau TAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Llywydd a'r Cadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel Addysg.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys. |
| **Dirpwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cefnogi'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, naill ai dros dro neu'n barhaol. |
| **Cadeiryddion** | Rheolir gwrandawiadau'r Tribiwnlys gan gadeirydd, ac mae'n rhaid bod ganddo gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, yn rhoi gwybod am ohiriadau ac yn pennu cyfarwyddiadau pan fo'u hangen. |
| **Aelodau'r Panel Addysg** | Mae Aelodau'r Panel Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol, Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig, a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd. |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon. |




## Penodiadau

Penodwyd tri chadeirydd cyfreithiol newydd i Dribiwnlys Addysg Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Ymddiswyddodd un cadeirydd cyfreithiol ac ymddeolodd un aelod lleyg arbenigol yn ystod y cyfnod adrodd.

## Hyfforddiant

Cynhaliodd y tribiwnlys sesiynau hyfforddi rhithiol ar gyfer ei aelodau yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

## Cysylltu â TAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAC:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad TAC: | Tribiwnlys Addysg Cymru<br>Blwch Post 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW |
| Llinell Gymorth TAC: | 03000 259800 |
| E-bost TAC: | tribiwnlysaddysg@llyw.cymru |

## Defnyddio TAC

Mae TAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglwr iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Bydd darpariaeth yn cael ei wneud os bydd anabledd neu ofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gael cyfieithydd/dehonglwr, neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y mynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

## Niferoedd ac ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst. Mae'r Tribiwnlys yn casglu'r data canlynol ar gyfer ystadegau:


| | | |
|---|---|---|
| Mathau o apeliadau ADY a ddaeth i law yn ystod 2021-22 | Tabl 2.0 | Tud 9 |
| Mathau o hawliadau AAA yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Tabl 2.1 | Tud 9 |
| Apeliadau AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Siart 2.2 | Tud 10 |
| Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Tabl 2.3 | Tud 11 |
| Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a math o apêl yn ystod 2021-22 | Tabl 2.4 | Tud 12 |
| Apeliadau AAA am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Siart 2.5 | Tud 14 |
| Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2021-22 | Tabl 2.6 | Tud 15 |
| Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2021-22 | Tabl 2.7 | Tud 16 |
| Apeliadau AAA yn ôl angen addysgol arbennig yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Siart 2.8 | Tud 17 |
| Apeliadau AAA yn ôl rhywedd yn ystod 2021-22 | Siart 2.9 | Tud 18 |
| Apeliadau AAA yn ôl tarddiad ethnig yn ystod 2021-22 | Siart 2.10 | Tud 18 |
| Apeliadau AAA yn ôl canlyniad yn 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Tabl 2.11 | Tud 19 |
| Apeliadau AAA yn ôl canlyniad a math o apêl yn ystod 2021-22 | Tabl 2.12 | Tud 20 |
| Apeliadau AAA yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn ystod 2021-22 | Tabl 2.13 | Tud 21 |
| Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Siart 2.14 | Tud 22 |
| Mathau o hawliadau yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Tabl 2.15 | Tud 22 |
| Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2021-22, o'u cymharu â 2020-21 | Siart 2.16 | Tud 23 |

Tabl 2.0 Mathau o apeliadau ADY a ddaeth i law yn ystod 2021-22

| Math o apêl | 2021-2022 |
|---|---|
| Angen, Darpariaeth ac Ysgol | 1 |
| A oes gan y plentyn ADY o hyd | 2 |
| ALl yn cymryd drosodd o ran cynhaliaeth | 1 |
| Angen, Darpariaeth a'r ALl yn cymryd drosodd o ran cynhaliaeth | 1 |
| Gwrthod penderfynu | 1 |
| **Cyfanswm** | **6** |

Tabl 2.1 Mathau o hawliadau AAA yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21

| Math o apêl | 2021-2022 | 2020-2021 |
|---|---|---|
| Gwrthod Asesu | 24 | 63 |
| Gwrthod rhoi Datganiad | 13 | 20 |
| Gwrthod Ailasesu | 2 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3 | 10 | 7 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4 | 25 | 28 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig | 4 | 5 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4 | 3 | 6 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig | 8 | 9 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 1 | 1 |
| Heb ei gofnodi | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **90** | **139** |

Siart 2.2 Apeliadau AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21, gan gynnwys y rheini gafodd eu dwyn ymlaen



Tabl 2.3 Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21

| | 2021-2022 | | 2020-2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr Apeliadau | Canran yr Apeliadau % | Nifer yr Apeliadau | Canran yr Apeliadau % |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 1 | 3 | 2 |
| Caerffili | 0 | 0 | 3 | 2 |
| Caerdydd | 12 | 13 | 18 | 13 |
| Sir Gaerfyrddin | 4 | 4 | 7 | 5 |
| Ceredigion | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Conwy | 6 | 7 | 7 | 5 |
| Sir Ddinbych | 2 | 2 | 6 | 4 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Gwynedd | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Merthyr Tudful | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Sir Fynwy | 1 | 1 | 3 | 2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 | 3 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 18 | 20 | 16 | 12 |
| Sir Benfro | 7 | 8 | 4 | 3 |
| Powys | 8 | 9 | 16 | 12 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 6 | 16 | 12 |
| Abertawe | 3 | 3 | 10 | 7 |
| Torfaen | 1 | 1 | 4 | 3 |
| Bro Morgannwg | 10 | 11 | 15 | 11 |
| Wrecsam | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Ynys Môn | 2 | 2 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **90** | **98** | **139** | **100** |

Tabl 2.4 Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn ystod 2021-22

| | Gwrthod Asesu | Gwrthod rhoi Datganiad | Gwrthod Ailasesu | Rhoi'r Gorau i Gynnal |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 2 | 4 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Conwy | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 9 | 1 | 1 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Powys | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **24** | **13** | **2** | **1** |

Tabl 2.4 Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn ystod 2021-22

| | Cynnwys Rhannau 2 a 3 | Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4 | Cynnwys Rhan 3 | Cynnwys Rhannau 3 a 4 | Cynnwys Rhan 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 2 | 0 | 2 | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 3 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Powys | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Abertawe | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 4 | 0 | 0 | 3 |
| Wrecsam | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **10** | **25** | **4** | **3** | **8** |

## Siart 2.5 Apeliadau AAA am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21



Tabl 2.6 Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2021-22

| | Nifer yr apeliadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Meithrin** | **Cynradd** | **Pontio Cynradd[2]** | **Uwchradd** | **Pontio Uwchradd** |
| Gwrthod Asesu | 1 | 16 | 0 | 7 | 0 |
| Gwrthod rhoi Datganiad | 0 | 9 | 0 | 4 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3 | 0 | 7 | 0 | 3 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4 | 0 | 11 | 2 | 12 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 3 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 4 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod Ailasesu | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **58** | **2** | **29** | **0** |

2 Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd.

Tabl 2.7 Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2021-22

| | Nifer yr apeliadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pontio Cynradd | Ysgol Uwchradd | Pontio Cynradd | Ysgol Uwchradd | Pontio Uwchradd |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 9 | 0 | 3 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Conwy | 0 | 1 | 0 | 5 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 15 | 0 | 3 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 4 | 0 | 3 | 0 |
| Powys | 0 | 4 | 0 | 4 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 7 | 0 | 3 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **58** | **2** | **29** | **0** |

Siart 2.8 Apeliadau AAA yn ôl angen addysgol arbennig yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21



Siart 2.9 Apeliadau AAA yn ôl rhywedd yn ystod 2021-22




Siart 2.10 Apeliadau AAA a gofrestrwyd yn ystod 2021-22 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.11 Apeliadau AAA yn ôl canlyniad yn 2021-22 (gan gynnwys yr apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2020-21

| | 2021-2022 | | 2020-2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Canran | Gwirioneddol | Canran |
| Wedi'u caniatáu[3] | 39 | 28 | 49 | 26 |
| Wedi'u tynnu'n ôl[4] | 43 | 31 | 47 | 25 |
| Wedi'u cadarnhau'n llawn | 5 | 4 | 8 | 4 |
| Wedi'u cadarnhau'n rhannol | 16 | 12 | 10 | 5 |
| Wedi'u gwrthod/dileu | 12 | 9 | 23 | 12 |
| Ar y gweill[5] | 22 | 16 | 49 | 26 |
| **Cyfanswm** | **137** | **100** | **186** | **100** |

3 Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALI yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn y mae'r apelydd wedi gofyn amdano yn ei apêl.

4 Wedi'u tynnu'n ôl – caiff achosion eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd am barhau â'i apêl mwyach. Bydd apêl yn cael ei dynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb, a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

5 Ar y gweill – mae'r achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.12 Apeliadau AAA yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn ystod 2021-22

| | Wedi'u caniatáu | Wedi'u tynnu'n ôl | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Wedi'u gwrthod/ dileu | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrthod Asesu | 32 | 4 | 3 | 0 | 3 | 0 |
| Gwrthod rhoi Datganiad | 6 | 4 | 0 | 0 | 6 | 1 |
| Gwrthod Ailasesu | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3 | 0 | 7 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4 | 0 | 15 | 1 | 12 | 2 | 9 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4 | 0 | 5 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 4 | 1 | 5 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| **Cyfanswm** | **39** | **43** | **5** | **16** | **12** | **22** |

Tabl 2.13 Apeliadau AAA yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn ystod 2021-22

| | Wedi'u caniatáu | Wedi'u tynnu'n ôl | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Wedi'u gwrthod/ dileu | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Caerffili | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 5 | 8 | 1 | 3 | 4 | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 2 | 2 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| Ceredigion | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 4 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| Sir Ddinbych | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Merthyr Tudful | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 10 | 7 | 0 | 0 | 2 | 3 |
| Sir Benfro | 0 | 3 | 0 | 3 | 2 | 1 |
| Powys | 6 | 3 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | 3 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Abertawe | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Bro Morgannwg | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 |
| Ynys Môn | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **39** | **43** | **5** | **16** | **12** | **22** |

Siart 2.14 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn ystod 2020-21, o'u cymharu â 2019-20




Tabl 2.15 Mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2021-22, o'u cymharu â 2020-21

| Math o Hawliad | 2021-2022 | | 2020-2021 | |
|---|---|---|---|---|
| Derbyn i'r Ysgol | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Addysg | 14 | 67% | 7 | 78% |
| Gwahardd | 7 | 33% | 1 | 11% |
| Heb ei gofnodi | 0 | 0% | 1 | 11% |

Siart 2.16 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2021-22, o'u cymharu â 2020-21




## Data Gwrandawiadau

Yn ystod 2021-2022 rhoddodd y Tribiwnlys wrandawiad i 69 o achosion. Ac o'r rheini cafodd 6 gwrandawiad eu cynnal ar sail gwrandawiad papur yn unig, cafodd 62 ohonynt eu cynnal fel gwrandawiad rhithiol, a chynhaliwyd un gwrandawiad wyneb yn wyneb.

| Math | Nifer y diwrnodau |
|---|---|
| Apêl | 51 |
| Hawliad | 12 |
| Papur | 6 (Apêl) |

## Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud cais am adolygiad yn erbyn penderfyniad gan Dribiwnlys ar sail gyfyngedig. A gall partïon ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, cafwyd 2 gais am adolygiad a chafwyd 6 chais am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Cafodd un cais am adolygiad ei wrthod, ac roedd un ar y gweill o hyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Gwrthodwyd 5 cais am Ganiatâd, gan gynnwys gwrthod eu Hadolygu – a oedd yn cynnwys un cais a gafodd ei ddwyn ymlaen o'r cyfnod adrodd blaenorol. Ac roedd 2 gais am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar y gweill o hyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fesur bodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad, neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd gennym sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar fodlonrwydd cwsmeriaid a ddarperir wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

## Cyflymder ein gwasanaeth

| | | |
|---|---|---|
| Targed: Cofrestru 95% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais am yr Apêl/Hawliad. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 71% o achosion |
| Targed: Rhoi 75% o'r penderfyniadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 56% o achosion |
| Targed: Ymdrin â 75% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 20 wythnos. | → | Cyrhaeddwyd y targed mewn 86% o achosion |

## Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys 2 gŵyn yn ystod y flwyddyn na chafodd eu cadarnhau.

# Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

## Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau i gwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Rydym yn casglu gwybodaeth ynghylch cyfathrebu a'r gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys lefel y bodlonrwydd o ran lleoliad y gwrandawiad, y cymorth a roddir gan staff, a gwefan y tribiwnlys.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2021-2022

Mae'n bwysig bod TAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau.
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr yng ngogledd a de Cymru.
- Trefnu a chynnal gwerthusiadau ar gyfer yr holl aelodau.
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefannau Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
- Parhau i weithredu newidiadau i'r tribiwnlys a'i brosesau yn dilyn y newid i Dribiwnlys Addysg Cymru.
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth mewn arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2021 i Fawrth 2022

## Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys | £214,000 |
| Costau eraill y Tribiwnlys | £8,000 |
| **Cyfanswm** | **£222,000** |

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf